Datganiad Grant Dysgu Proffesiynol Ysgol David Hughes 2019-2020

Bydd y cyllid hwn yn helpu Ysgol David Hughes i fodloni gofynion y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol newydd ac yn fodd i fuddsoddi yn elfennau'r model. Galluoga hyn i'r ysgol fuddsoddi mewn llwybrau dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr a buddsoddi mewn cydweithrediad. Prif ddefnydd y cyllid fydd creu amser i ymarferwyr wneud y newidiadau i arferion sydd eu hangen cyn gwireddu'r cwricwlwm newydd.

Bydd y cyllid yn targedu'r dysgu sydd ei angen ar athrawon a dysgwyr i'w paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a bydd pob ymarferydd, athrawon a chymorthyddion, yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol. Defnyddir y cyllid i gefnogi dysgu proffesiynol ar y cyd ar draws ysgolion gan gynnwys y sector gynradd.

Yn unol â hyn, bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi y canlynol:

- rhyddhau athrawon a chymorthyddion dysgu i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol;
- talu unigolion, gan greu rolau a swyddi, i gefnogi'r gwaith o gydlynu gweithgareddau DP ar draws yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi cyd-weithwyr, adrannau neu ddulliau gweithredu ysgol gyfan gydag ymholi beirniadol, rheoli newid a gweithgareddau YSD
- costau rhyddhau er mwyn i ymarferwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil ac ymholi beirniadol, gan ariannu amser rhyddhau i ymchwilio i oblygiadau'r cwricwlwm newydd ar gyfer eu harfer addysgu ac asesu eu hunain
- costau rhyddhau i alluogi ymarferwyr i gydweithio yn yr ysgol ac ar draws clystyrau a rhwydweithiau ysgolion - gan gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol ar y cyd a chynllunio ar y cyd

Yn 2019-20 bu i Ysgol David Hughes dderbyn Grant Dysgu Proffesiynol o £52,000

Medi 2019